CRONFA ARCHESGOB CYMRU
ER BUDD PLANT

AWFC

THE ARCHBISHOP OF WALES
FUND FOR CHILDREN

YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

# Cylchlythyr Ymddiriedolwyr

2019 / 2020

Adroddodd yr Ymddiriedolwyr ddiwethaf ar waith Cronfa Archesgob Cymru i Blant ym mis Mehefin 2018. Ers hynny, mae cynulleidfaoedd a phlwyfi wedi gwneud gwaith rhagorol yn parhau i godi arian ar gyfer yr hyn sydd wedi dod yn achubiaeth yn y cyfnod economaidd anodd hwn i grwpiau plant ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar godi arian yn ystod 2020.

Heb y gefnogaeth sylweddol gan ein plwyfolion, ni fyddai ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc ac ar eu cyfer yn enw Iesu yn bosibl. Gofynnir felly i blwyfi gofio'r Gronfa yn eu gweddïau ac wrth ystyried achosion i'w cefnogi wrth ddyrannu unrhyw arian at ddibenion elusennol.

Cafwyd ceisiadau am gymorth ariannol gan ystod eang o brosiectau plant (cyfanswm o 34 o geisiadau ar gyfer 2019 a 29 o geisiadau ar gyfer 2020). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi bod yn falch o allu cefnogi cyfanswm o 20 o brosiectau ar gyfer 2019 a 14 o brosiectau yn 2020, gydag amryw o'r rhain o fewn ein cymunedau eglwysig ein hunain. Isod mae rhestr o'r Grantiau a ddyfarnwyd yn 2019 a 2020.

## Canlyniadau Ariannol

| | £<br>31 Rhagfyr 2019 | £<br>31 Rhagfyr 2020 |
|---|---|---|
| Rhoddion | 17,138.00 | 13,103.00 |
| Ceisiadau | | |
| Derbyniwyd | 34 | 29 |
| Cefnogwyd | 20 | 14 |

## Prosiectau a Gefnogwyd yn 2019

| Llanelwy | £ |
|---|---|
| Eglwys y Santes Fair, Tywyn | 1,000.00 |
| Esgobaeth Llanelwy | 400.00 |
| 'Busy Bods' yn Ysgol Bodfari | 500.00 |
| Ysgol Gynradd Southdown | 470.00 |
| 1125 C.I.C | 2,300.00 |

| Llandaf | £ |
|---|---|
| Byddin yr Eglwys | 1,715.00 |
| MENFA – Mentora i Bawb | 400.00 |
| YMCA Hirwaun | 450.00 |
| Banc Babanod Cwtch | 1,000.00 |
| Rock UK Adventure Centres Limited | 3,200.00 |

| Trefynwy | £ |
|---|---|
| Cymuned Holywell | 3,000.00 |

| Tyddewi | £ |
|---|---|
| Canolfan Deuluol Tŷ Enfys | 571.00 |

Ffôn: 029 2034 8200
E-bost: awfc@churchinwales.org.uk
Elusen Gofrestredig 102236

| Abertawe ac Aberhonddu | £ |
|---|---|
| Radnor Chwarae | 2,000.00 |
| Canolfan Deuluol Caerfyrddin | 650.00 |
| Canolfan Deuluol Betws | 1,000.00 |

| Bangor | £ |
|---|---|
| Clwb Ein Harglwyddes | 650.00 |
| Sistema | 2,000.00 |
| Cylch Meithrin Amlwch | 2,250.00 |

## Prosiectau a Gefnogwyd yn 2020

| Llanelwy | £ |
|---|---|
| Home Start Conwy | 2,700.00 |
| 1125 C.I.C | 300.00 |
| Canolfan Adnoddau Cymunedol Cyfeillion Hightown | 1,072.50 |

| Llandaf | £ |
|---|---|
| Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc Caerdydd | 2,000.00 |
| Prosiect Ieuenctid a Chymunedol Cathays a Chanol y Ddinas | 1,000.00 |
| Eglwys Gymunedol Hope | 1,500.00 |
| Tŷ Hafan | 1,000.00 |

| Trefynwy | £ |
|---|---|
| Prosiect Ymddiriedolaeth Elusennol A Bridge to Cross | 454.20 |

| Tyddewi | £ |
|---|---|
| Canolfan Deuluol De Cefncaeau (Tŷ Enfys) | 943.00 |
| Fforwm Llwynhendy Pemberton | 1,300.00 |

| Bangor | £ |
|---|---|
| Cylch Chwarae Amlwch | 1,500.00 |
| Grŵp Cymunedol ~ caru Amlwch | 2,900.00 |

## Yr wybodaeth ddiweddaraf gan... Brosiect Ambr (Byddin yr Eglwys)

**Dyfarnwyd grant o £4,677.00 yn 2020.**

"...ar ran y bobl ifanc ym Mhrosiect Ambr Byddin yr Eglwys i ddiolch i Ymddiriedolwyr Cronfa Archesgob Cymru i Blant am eu cefnogaeth a'u hanogaeth barhaus."

"Oherwydd yr arian a ddarparwyd gan Gronfa'r Archesgob, rydym wedi gallu parhau i gefnogi a helpu'r bobl ifanc yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae gallu cynnig y gefnogaeth barhaus honno wedi bod yn anhygoel ac, fel prosiect, rydym yn ddiolchgar ac yn ffodus i barhau i helpu'r rhai mwyaf anghenus."

"Fel cwnselydd ym Mhrosiect Ambr, rwyf wedi bod yn falch iawn o allu parhau â'm gwaith gyda phobl ifanc yn ystod y pandemig Covid-19 gyda chyllid gan Gronfa'r Archesgob. Dydy'r gwaith cwnsela rwy'n ei wneud erioed wedi teimlo mor hanfodol a buddiol i bobl ifanc sydd angen cefnogaeth. Cawsom adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â pha mor fuddiol oedd medru trafod eu meddyliau a'u teimladau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol a sut mae hyn yn berthnasol i'w byd ehangach. Braint o'r mwyaf yw gallu cynnig cymorth cwnsela ar hyn o bryd ac rwy'n ddiolchgar i Gronfa'r Archesgob am eu cefnogaeth i'r gwasanaeth."

## Y wybodaeth ddiweddaraf gan... Gŵn Clywed i Bobl Fyddar

**Dyfarnwyd grant o £570.00 yn 2020.**

"Rydym mor ddiolchgar i Gronfa Archesgob Cymru i Blant am eich cefnogaeth garedig i'n gwaith o helpu plant byddar i roi unigrwydd y tu cefn iddyn nhw ac ailgysylltu â bywyd."

| Cenedlaethol | £ |
|---|---|
| Byddin yr Eglwys | 4,677.00 |
| Cŵn Clywed i Bobl Fyddar | 570.00 |

## Codi Arian

**Hoffem ddiolch yn fawr i Bwyllgor Casnewydd (Esgobaeth Trefynwy) a gododd ganran fawr o'r arian a roddwyd i'r Gronfa hon yn ystod y cyfnod hwn. Heb y gefnogaeth hon, ni fyddem wedi gallu darparu Grantiau i gynifer o brosiectau.**

**Cafwyd amryw o ddigwyddiadau Codi Arian gydol 2019, a hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn codi arian.**

**Mae posteri, Cylchlythyrau a Phecynnau Adnoddau Cristingl ar gael ar-lein yn https://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/publications/downloads/archbishop-of-wales-fund-for-children-poster/**

**Os oes angen copïau caled, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Natasha Aldridge, ar 029 2034 8200.**

E mail: awfc@churchinwales.org.uk
A Registered Charity 102236